**ADRODDIAD I'R CABINET**
16 Hydref 2018

**Aelod Cabinet:** Cynghorydd Peredur Jenkins, Aelod Cabinet Cyllid

**Pwnc:** Cyllideb Refeniw 2018/19 – Adolygiad Diwedd Awst 2018

**Swyddog Cyswllt:** Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid

---

## 1. Y penderfyniad a geisir

Gofynnir i'r Cabinet:

- Dderbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd Awst 2018 o'r Gyllideb Refeniw, ac ystyried y sefyllfa ariannol ddiweddaraf parthed cyllidebau pob adran / gwasanaeth.

- Gofyn i'r Aelodau Cabinet ar gyfer gwasanaethau Plant, Addysg a Priffyrdd a Bwrdeistrefol sicrhau fod yna gynllun gweithredu clir gan y dair adran i gymryd camau i leihau'r diffyg ariannol ac i drafod y cynlluniau hynny gyda mi er mwyn cael hyder eu bod yn rhesymol.

- Ddigolledu'r Adran Economi a Chymuned £40k sef y golled incwm yn dilyn cau pwll nofio Arfon dros yr haf.

- Cynaeafu (£1,904) o'r tanwariant net ar gyllidebau Corfforaethol, gyda (£40k) i'w ddefnyddio i ddigolledu'r Adran Economi a Chymuned am y golled incwm tra bu Pwll Nofio Arfon ar gau. Gyda'r gweddill sef (£1,864) i'w drosglwyddo i Gronfa Cynorthwyo'r Strategaeth Ariannol i gynorthwyo gyda phwysau anochel un-tro ar gyllidebau'r Cyngor.

## 2. Cyflwyniad / Cefndir

Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor (e.e. cymeradwyo trosglwyddiadau sylweddol neu gyllideb ychwanegol).

Cyflwynir yr adroddiad ddiwedd Awst yma ar yr adolygiad diweddaraf o gyllideb refeniw'r Cyngor am 2018/19, ac amlinellir crynhoad o'r sefyllfa fesul Adran yn **Atodiad 1**.

Yn **Atodiad 2,** rhoddir manylion pellach ynglŷn â'r prif faterion a'r penawdau cyllideb ble rhagwelir gwahaniaethau sylweddol, ynghyd ag argymhellion penodol ble'n briodol.

## 2.1 Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant

Gorwariant gan wasanaethau Darparu a llithriad yng ngwireddu cynlluniau arbedion o 2017/18, yn cael eu gwrthbwyso gan danwariant ar wasanaethau Pobl Hŷn, Anabledd Corff a Dysgu.

## 2.2 Adran Plant a Theuluoedd

Y tuedd o orwariant a welwyd yn 2017/18 yn dwysáu, gyda gorwariant ar wasanaethau lleoliadau, gweithredol ac Arbenigol/Derwen.

## 2.3 Adran Addysg

Pwysau ychwanegol ar gludiant tacsis a bysus ysgolion, gorwariant yn y maes Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad ac ar arlwyaeth a glanhau.

## 2.4 Adran Economi

Llithriad cynllun arbedion yn y maes hamdden a cholled incwm yn dilyn cau pwll nofio Arfon dros yr haf. Argymhellir fod yr adran yn cael ei ddigolledu am y golled incwm dros y cyfnod.

## 2.5 Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol

Problemau gorwariant yr Adran wedi dwysáu yn ystod 2018/19, sydd yn gyfuniad o gynnydd yn y costau gweithredol, costau cynyddol salwch, ymdrin a chludo deunyddiau ailgylchu a diffyg incwm.

## 2.6 Corfforaethol

Rhagolygon o gynnyrch treth ychwanegol ar y cynllun Premiwm Treth y Cyngor, ond ôl-ddyddio trosglwyddiadau o Dreth y Cyngor i Drethi Annomestig yn lleihau'r incwm. Bu tanwariant ar leihad mewn hawlio Gostyngiadau Treth Cyngor, arbedion a wireddwyd ymlaen llaw, bidiau na fydd yn cael eu defnyddio eleni, a thanwariant o ganlyniad i amgylchiadau ffafriol diweddar. Argymhellir ei drosglwyddo i'r Gronfa Strategaeth Ariannol i gynorthwyo gyda pwysau anochel un-tro ar gyllidebau'r Cyngor.

# 3. Cyffredinol

Mae'r adolygiad ddiwedd Awst o'r cyllidebau yn dangos darlun cymysg, gyda rheolaeth ariannol derbyniol gan nifer o adrannau'r Cyngor, ond argymhellir cyfuniad o gamau gweithredu pendant i'r Adran Addysg, Plant a Theuluoedd, a Priffyrdd a Bwrdeistrefol, i sicrhau rheolaeth o'u cyllidebau erbyn 31 Mawrth 2019.

## 4. Camau nesaf ac amserlen

Gweithredu ar yr argymhellion gerbron a chyflwyno adroddiad dilynol i'r Cabinet ar 22 Ionawr 2019 ar yr adolygiad ddiwedd Tachwedd.

---

**Barn yr aelod lleol**
Dim yn berthnasol

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Swyddog Monitro:**
Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

---

**Atodiadau**
Atodiad 1 – Crynhoad o sefyllfa net cyllidebau'r adrannau
Atodiad 2 – Manylion y cyllidebau a'r gwahaniaethau sylweddol

---